# Cylchlythyr Adfent/Nadolig 2023

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

## Arweinwyr Eglwysig Cymru yn cwrdd er mwyn ystyried cyfeiriad y mudiad eciwmenaidd yng Nghymru at y dyfodol



**Ar ôl bwlch o nifer o flynyddoedd, yn rhannol oherwydd cyfnod clo'r pandemig, daeth dros bymtheg o arweinwyr eglwysig ynghyd yn yr Amwythig ddiwedd mis Hydref, er mwyn trafod cyfeiriad y mudiad eciwmenaidd yng Nghymru at y dyfodol.**

Dechreuodd y diwrnod gydag astudiaeth Feiblaidd dan gyfarwyddyd yr Athro Susan Durber, Llywydd Ewrop Cyngor Eglwysi'r Byd, gyda'r llythyr at y Philipiaid yn destun ar gyfer yr astudiaeth. Cafwyd cyflwyniadau byr i ddilyn gan y Parch Aled Davies ar bresenoldeb yr Eglwysi yn ein gwyliau cenedlaethol dros yr haf, a chyflwyniad hefyd gan y Parch Gethin Rhys ar y tirwedd demograffig o ran crefydd yng Nghymru a amlygir gan ganlyniadau cyfrifiad 2021.

Ond prif bwrpas y dydd oedd meithrin cysylltiadau personol a thrafod pump o gwestiynau a oedd wedi eu rhoi i'r arweinwyr yn deillio o ddarlith goffa'r Parch Lloyd Jones a draddodwyd gan Brif Weithredwr Cytûn, Siôn Brynach ym mis Awst. Cynhaliwyd y trafodaethau hyn mewn pump o grwpiau bach.

Mae adroddiad yn deillio o'r cyfarfod yn cael ei baratoi ar hyn o bryd, a bydd hwnnw yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cytûn yn y flwyddyn newydd. Yna bydd Ymddiriedolwyr Cytûn yn trafod yr adroddiad hwnnw yn ei cyfarfod nesaf ym mis Chwefror.

## Her yn Narlith Goffa Lloyd Jones i'n harweinwyr eglwysig ystyried dyfodol y mudiad eciwmenaidd yng Nghymru: "Dringo'r ail fynydd : dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?"

**Mae darlith goffa'r Parch Lloyd Jones a draddodwyd gan Brif Weithredwr Cytûn, Siôn Brynach yn ystod y Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym mis Awst, wedi ei chyhoeddi ar wefan Cytûn.**

Traddodwyd y ddarlith ar wahoddiad y Parch Casi Jones, gweddw Lloyd, a'r Parch Rosie Dymond, Rheithor Ardal Weinidogaeth Uwch Gwyrfai, ac fe'i thraddodwyd yn Eglwys Beuno Sant, Clynnog fawr.

Gan siarad yn ddiweddar, dywedodd Siôn:



"Braint o'r mwyaf oedd cael gwahoddiad i draddodi'r ddarlith hon yn eglwys St Beuno lle bu Lloyd yn Reithor

yn y gorffennol. Roedd Lloyd a minnau yn gyd-weithwyr ac yn gyfeillion flynyddoedd yn ôl a'n llwybrau wedi croesi o dro i dro yn y blynyddoedd wedi hynny. Mae ei golled i'w deimlo yn ddwys, a gobeithio y byddai teitl y ddarlith wedi codi gwen ar wyneb Lloyd ac yntau yn eciwmenydd o argyhoeddiad, ac yn hoff iawn o fynyddoedd hefyd.

"Her yw'r ddarlith i'n harweinwyr eglwysig ystyried dyfodol y mudiad eciwmenaidd yng Nghymru a chyfeiriad Cytûn yn benodol. Mae ein cyfansoddiad yn ei gwneud hi'n glir mai tasg arweinwyr yr eglwysi sy'n aelodau o Cytûn – mewn cydweithrediad â'n hymddiriedolwyr – yw hyn. Gobeithio y bydd y grwpiau hyn yn mynd i'r afael â'r dasg yn ebrwydd, yn egnïol a chyda calonnau agored a llon."

Mae'r ddarlith i'w gweld yma - https://www.cytun.co.uk/hafan/cyhoeddi-darlith-goffa-lloyd-jones-dringor-ail-fynydd-dyfodol-i-eciwmeniaeth-yng-nghymru/

## Croeso i Gymru 2023 yn torri record o ran niferoedd yn mynychu

**Cafwyd 33 o bobl yn mynychu cwrs Croeso i Gymru, Cytûn eleni – y nifer mwyaf erioed, a rhyw 15% yn uwch nag yn y blynyddoedd diweddar yn syth wedi'r cyfnodau clo. Roedd saith enwad a sefydliad wedi eu cynrychioli ymhlith y rhai a oedd yn bresennol.**

Yn ystod y cwrs 48 awr, cafwyd sesiynau ar faterion rhyng-ffydd, eciwmeniaeth yng Nghymru, addysg yng Nghymru, cyflwyniad i'r Gymraeg, materion polisi yn ogystal ag ymweliadau â'r Senedd ym Mae Caerdydd ac Amgueddfa Sain Ffagan. Tywyswyd y criw trwy hanes Cymru yn Sain Ffagan gan y Parch Christopher Gilham o Sir Benfro. Braf oedd cael un o gyfeillion Cytûn, Peredur Owen Griffiths AS yn croesawu'r criw i Fae Caerdydd, ac un arall – Ynyr Roberts o Brigyn – yn perfformio cerddoriaeth ar ail noson y cwrs.

Roedd yr adborth ar ddiwedd y cwrs yn hynod ganmoliaethus, gyda'r criw wedi gwir fwynhau'r cyflwyniad i dirwedd hanesyddol, gwleidyddol ac eglwysig Cymru. Bydd cwrs Croeso i Gymru 2024 yn cael ei gynnal 2-4 Hydref yng Nghanolfan Chwaraeon Cymru, Caerdydd ac os hoffech ragor o fanylion nawr, yna e-bostiwch Sasha Perriam - post@cytun.cymru


Ynyr Roberts, Brigyn


Ymweliad â Sain Ffagan



Ymweliad â'r Senedd

## Y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol

**Braf oedd cael dychwelyd i Faes y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf a mynd i Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan ym mis Awst.**

Ym Moduan fe wnaeth 7400 o ymwelwyr gael paned ar y stondin gyda 160 i wirfoddolwyr o blith yr eglwysi lleol yn cynorthwyo. Un o nodweddion ein presenoldeb yn Eisteddfod yr Urdd, Y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol yw'r cyd-weithio a welir rhwng yr enwadau yn ogystal â sefydliadau eraill, a hyfryd oedd cael cwmni mudiadau megis A Rocha, Cymdeithas y Beibl a Chymorth Cristnogol ynddynt, gyda'r Parch Andrew Sully, o Gymorth Cristnogol yn arwain addoliad boreol yn y Sioe a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Braf hefyd oedd darparu llety ar gyfer y Caplaniaid yn y Sioe Fawr, gan eu bod yn gwneud gwaith mor bwysig ymhlith y stondinwyr a'r ymwelwyr yn ystod pedwar diwrnod y sioe. Mae ymddiriedolwyr Cytûn bellach wedi cadarnhau y bydd y gwaith o gydlynu'r digwyddiadau hyn yn nwylo'r Parch Aled Davies, a Mrs Delyth Davies tan 2025.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu eto yn ystod haf 2024.



Stondin Cytûn yn y Sioe Fawr, Llanelwedd

## Dydd Gweddi'r Byd

**Diolch i is-bwyllgor Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd am y grant hael tuag at waith Cytûn yn hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn y Gymraeg. Fe'i gwerthfawrogwyd yn fawr.**





Parch Andrew Sully, Cymorth Cristnogol

## Apêl Heddwch Eglwysi Cymru i'r America 1925 – Prosiect Canmlwyddiant

**Ychydig yn ôl, daeth staff Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) o hyd i Apêl Heddwch o 1925: "Apêl arweinwyr crefyddol yng Nghymru at Gyngor Eglwysi Crist yn yr America".**

O fewn y cloriau lledr Moroco cain, gyda deilen aur ac inciau Indiaidd mae apêl wedi'i lofnodi gan arweinwyr eglwysi Cristnogol Cymru ar i eglwysi ar draws America eiriol dros Gynghrair y Cenhedloedd er mwyn osgoi'r perygl o ryfeloedd byd yn y dyfodol.

Daethpwyd o hyd i'r ddogfen hon yn dilyn ail-ddarganfod Apêl Heddwch Menywod Cymru i America 1923-24, sydd wedi ysbrydoli ymgyrch canmlwyddiant Cymru gyfan a phrosiect a ariannwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, 'Hawlio Heddwch'. Trwy 2023-24 mae ei hanes wedi ei ddadlennu trwy gynnwys grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, academyddion a chymdeithas sifil.



APÊL

ARWEINWYR CREFYDDOL YNG NGHYMRU AT GYNGOR EGLWYSI CRIST YN YR AMERICA

...

A MEMORIAL FROM LEADERS OF RELIGIOUS BODIES IN WALES TO THE FEDERAL COUNCIL OF THE CHURCHES OF CHRIST IN AMERICA

Mae'n ymddangos i Apêl Heddwch yr Eglwysi yn 1925 gael ei hysbrydoli gan ymgyrch Heddwch y Merched – fe ddaeth rhyw 18 mis wedi hynny, y ddau wedi'u trefnu trwy Undeb

Cynghrair y Cenhedloedd Cymru (WLNU), un o ragflaenwyr WCIA.

Ond erys stori Apêl yr Eglwysi heb ei hadrodd. Mae yna arwyddocâd eciwmenaidd amlwg i'r ddogfen hon, fel un o'r arwyddion cynharaf o gydweithredu rhyng-enwadol eang ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf a datgysylltu Eglwys Loegr yng Nghymru.

Hyd yn hyn mae WCIA wedi gallu:

- Digideiddio'r apêl ar Gasgliad y Werin Cymru, a chefnogi gwirfoddolwyr i ymchwilio, adnabod a digideiddio deunyddiau archifol WLNU a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth – yn arbennig adroddiad y Parch Gwilym Davies o'i daith a chyflwyno'r apêl i arweinyddion ffydd America yn Detroit ym mis Rhagfyr 1925.
- Mae'r deunyddiau gwreiddiol hyn wedi'u casglu yn rhan o dudalen nodwedd 'hanes cudd' ar dudalennau Treftadaeth Heddwch WCIA, 'Apêl Heddwch Eglwysi Cymru i America 1925'. Gellir ei rannu'n ddigidol tra'i fod hefyd yn galluogi eraill i weld a defnyddio'r ffynonellau gwreiddiol.
- Bu'r fyfyrwraig profiad gwaith Abby Craig-Jones yn cynhyrchu ffilm fer (9 munud), sydd ar gael ar Youtube (ynghyd â thaflen PDF y gellir ei lawrlwytho), sy'n adrodd hanes yr apêl hyd yn hyn. Gobeithiwn y gall ysgogi diddordeb ymhlith grwpiau cymunedol a phartneriaid.

Mae WCIA a Cytûn bellach wedi cytuno i gydweithio ag olynwyr yr enwadau a lofnododd yr apêl gwreiddiol (yr Eglwysi Rhyddion, yr Eglwys yng Nghymru a'r Crynwyr). Yn ogystal cynhwysir eglwysi eraill, grwpiau ffydd a chymunedol a sefydliadau treftadaeth / trydydd sector ledled Cymru i gofio Apêl Heddwch yr Eglwysi yn 2025. Dethlir hefyd ei berthnasedd i heddwch ac ymdrechion rhyng-enwadol a rhyng-ffydd ganrif yn ddiweddarach.

Mae hwn yn gyfle gwych i WCIA gydweithio â Cytûn ac eraill i ddadlennu'r stori a dod â hi'n fyw, ei chysylltu â materion heddwch cyfoes, a chynnwys cymunedau wrth ddadlennu'r rhan goll hon o hanes Cymru. Mae holl aelod enwadau Cytûn eisoes wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan. Byddem yn croesawu diddordeb gan unigolion ac eglwysi lleol hefyd sydd am helpu ymchwilio i'r gorffennol, ei gofnodi ar gyfer y presennol, a darparu ysbrydoliaeth ar gyfer y dyfodol. Yn y lle cyntaf, cysylltwch â Gethin Rhys yn Cytûn – gethin@cytun.cymru

## Tymor y Cofio

**Mae Tachwedd bob blwyddyn yn amser i gofio'r rhai hynny a gollwyd mewn rhyfel ynteu wrthdaro milwrol dros y blynyddoedd.**

Dywedodd Prif Weithredwr Cytûn, Siôn Brynach, "Braint oedd cael cymryd rhan yng Ngŵyl y Cofio'r Lleng Brydeinig eleni, yn Eglwys Gadeiriol Dewi Sant yng Nghaerdydd, gan gynorthwyo'r Parch Martin Spain o'r Ffederasiwn Gynulleidfaol sydd hefyd yn swyddog eciwmenaidd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Roedd yn achlysur teimladwy iawn ac yn deilwng urddasol i gofio'r rhai a gollwyd o ganlyniad i ryfel."





Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071